

Cynllun Pentref Llansbyddy


Siapio dyfodol ein pentref



Cefndir

Ysgrifennwyd y cynllun hwn gan Robert Griffiths a Chris Hyde sydd ill dau yn drigolion pentref Llansbyddy. Mae'r cynllun hwn yn eiddo i'r gymuned. Mae'r cynllun yn ganlyniad i ymgynghoriad ac mae ar gyfer pawb sy'n byw yn y pentref. Fe'i cynlluniwyd i hyrwyddo ymdeimlad o les cymunedol i breswylwyr presennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Bydd yn gymorth wrth chwilio am gymorth, dylanwadu ar ddatblygiad y pentref yn y dyfodol ac unrhyw anghenion yn y dyfodol o unrhyw ehangu ar y pentref. Byddai unrhyw arian o ganlyniad i'r cynllun yn cael ei roi tuag at wireddu'r cynllun hwn gan y gymuned.

 **FRIENDS OF LLANSPYDDID NEWSLETTER** October 2017 Issue 36

Feasibility Study for the Church Door-to-door survey

Over the course of the last year or so, we have had discussions with the Church, Congregation, Community Council and other villagers regarding possible renovations to Llanspyddid Church to make it more amenable to the needs of the congregation and the village. In principle, everyone is supportive of the idea of a more usable space.

Local architects have had a look at the church and the Church Field, and they have given us a quote of £1300 for completing a feasibility study. We have asked the Glyn Tarell Community Council for funding to complete this feasibility study. However the Community Council would like us to ask you if the Community Council should be spending money on this study.


Consequently, the Friends of Llanspyddid will be going door-to-door asking your opinion on whether or not you would support the Community Council spending money on a feasibility study to better understand what the possibilities are for the church and how much they might cost. Some ideas include: better seating, better heating and electric, running water, kitchen facilities, toilets, a central usable space for activities, a separate building, etc. This information will allow us to develop a plan to present to the Church and to seek sources of funding to support the work if it all goes ahead. Everyone will be consulted along the way.

Bonfire Night Celebrations
Saturday, 4th November
8.00 PM, Church

Donations for this year's Bonfire Night are £5.00 per adult, children free. Price includes soups, various, hot dogs, sparklers and fireworks. Fireworks will be approx. 8.00 PM. (Time may vary with the weather.) We need numbers early for catering purposes, so please return the slip below before Wednesday, 1st November to let us know how many will be attending. Soups and food will go ahead on 4th November no matter the weather.

Anyone willing to make a pot of soup, cake or curry for Bonfire Night festivities, please ring Brad (811776) to confirm.


Family and friends are always welcome!




Cyd-destun Presennol

Mae Llansbyddyd yn bentref bach gwledig ychydig i'r gorllewin o Aberhonddu o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Saif o fewn dyffryn Afon Wysg yng nghymuned Glyn Tarell ym Mhowys . Saif Llansbyddyd ar gefnffordd yr A40 rhwng Aberhonddu a Llanymddyfri, 2 filltir o Aberhonddu.

Mae'r pentref a'r aelwydydd cyfagos yn cynnwys poblogaeth o 270 o bobl, yn rychwantu pob grŵp oedran gyda'r crynodiad uchaf o bobl yn y grwpiau oedran 30-44 a 45-59 yn ôl cyfrifiad 2011. Mae 51% o'r boblogaeth yn fenywod. Mae'r pentref yn cynnwys dwy brif stryd, sef Heol Sant Catwg a Meadowside a ffermydd ac anheddau gwasgaredig eraill ar gyrion y pentref. Mae tua 116 o aelwydydd yn y pentref ac o'i gwmpas. mae 82 ohonyn nhw mewn perchnogaeth lwyr neu drwy forgais. Mae 97 o'r aelwydydd yn cynnwys tri neu lai o breswylwyr. Mae dros hanner y cartrefi yn dai pâr.



Mae'r preswylwyr yn cynnwys cymysgedd eclectig o deuluoedd wedi ymddeol a theuluoedd sy'n gweithio; Mae 19% wedi ymddeol a 34% yn gyflogedig amser llawn. Mae nifer uwch na'r cyfartaledd o drigolion yn hunangyflogedig—18%. Mae 13% yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg, sy'n debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol. Dim ond nifer fach iawn o drigolion LlanSpyddid sydd wedi'u nodi fel rhai o ethnigrwydd cymysg Mae gan y rhan fwyaf o bobl basbort Prydeinig, nid oes gan nifer basport ac mae gan nifer fach basbort Ewropeaidd neu Ogledd America. Mae gan y pentref faes chwarae sy'n cael ei wasanaethu gan yr awdurdod lleol, Cyngor Sir Powys, ac eglwys o'r 14eg Ganrif gyda mynwent sydd wedi'i chau yn ddiweddar ar gyfer addoli gan yr Eglwys yng Nghymru. Mae 191 o drigolion yn ystyried eu hunain yn Gristnogion tra bod 77 o bobl yn dweud nad oes ganddyn nhw unrhyw gysylltiad crefyddol neu heb ddweud hynny. Yr ysgol gynradd agosaf yw Ysgol Gynradd Llanfaes, er bod cyfanswm o chwe ysgol gynradd o fewn tair milltir i LlanSpyddid. Ysgol Uwchradd Aberhonddu yw'r ysgol uwchradd agosaf ac mae Coleg Crist yn cynnig opsiwn preifat gan dalu ffi. Mae Coleg Castell-nedd Port Talbot yn Aberhonddu yn cynnig cyfleoedd addysg bellach (galwedigaethol).

Darperir cludiant pentref mewn ceir preifat, gwasanaeth tacsï a gwasanaeth bws 14 gwaith y dydd (T6) rhwng Aberhonddu ac Abertawe. Mae'r gwasanaeth bws yn rhedeg tua bob awr rhwng 6.40 am a 8.15 pm o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Mae gwasanaeth bws cyfyngedig ar ddydd Sul tua bob dwy awr rhwng 9.30am a 5.30pm.

Mae'r gwasanaeth trên agosaf 18 milltir i ffwrdd yn Llanymddyfri, er bod gwasanaethau hefyd ym Merthyr (20 milltir) a'r Fenni (24 milltir).

Mae gan Lansbyddyd gymuned fywiog gyda digwyddiadau cymunedol rheolaidd yn cael eu cynnal o nosweithiau bingo i ffeiriau haf. Mae ganddo fudiad preswylwyr sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drefnu digwyddiadau ac fe'i gelwir yn Gyfeillion Llanbyddyd. Mae Cyfeillion Llanbyddyd yn cael eu cefnogi'n ariannol yn rheolaidd gan y cyngor cymuned.



Mae gan Llanbyddyd ei gwefan pentref ei hun a phresenoldeb ar Facebook. Ar hyn o bryd nid oes gan y pentref siop, tafarn na neuadd bentref. Mae'r gymuned wedi codi arian i brynu pabell fawr ac ar hyn o bryd yn cynnal digwyddiadau naill ai yn yr eglwys neu yn y babell a godir ar gae'r eglwys. Mae'r gofod cymunedol hwn - yr eglwys a chae'r eglwys - dan fgythyriad ar hyn o bryd. Mae dewisiadau eraill megis y maes chwarae yn llai dymunol oherwydd topograffeg y tir a byddai unrhyw adeilad yma yn niweidiol i'r ardal chwarae yn y maes chwarae.



Ymgynghori

Er mwyn dyfeisio cynllun ar gyfer Llanbyddyd roedd yn bwysig ffurfio grŵp cymunedol. Yn Iwcus i ni yr oedd hyn eisoes yn bodoli ar ffurf grŵp cyfansoddiadol o'r enw Cyfeillion Llanbyddyd. Y cam nesaf oedd ymgynghori gyda thrigolion y pentref i gael syniadau ar yr hyn yr oedd pobl ei angen. Er mwyn sicrhau ein bod yn cael ystod eang o syniadau gan y trigolion, cynhaliwyd diwrnodau ymgynghori unigol

yn yr eglwys lle'r oedd y trigolion yn bresennol pan oedd yn gyfleus iddynt i roi eu barn.



Er mwyn sicrhau ein bod yn estyn allan at gynifer o drigolion â phosibl, cafodd ymgyngoriadau hefyd eu hychwanegu at ddigwyddiadau pentrefol pan fyddai'r rhan fwyaf o drigolion yn bresennol. Rhestrir dyddiadau digwyddiadau ymgyngori a'r niferoedd a fynychodd yn Nhabl 1 isod. Roedd hyn er mwyn sicrhau'r sylw mwyaf posibl i drigolion roi eu barn. Mae gwefan sy'n hyrwyddo'r pentref ac yn gymorth i gyfathrebu gyda thrigolion. Mae gwybodaeth a chanlyniadau wedi'u cyhoeddi mewn cylchlythyr pentref ac ar y wefan trwy gydol y broses ymgyngori.

Tabl 1: Digwyddiadau ymgynghori y Cynllun Pentref a'r nifer yn mynychu.

Math o Ddigwyddiad	Dyddiad	Nifer yn mynychu	Oriau	Lleoliad
Cyfarfod dichonoldeb yr Eglwys	4/11/18	5	1.5	Yr Eglwys
Cyflwyniad Hanes y Pentref—ar agor i'r cyhoedd	30/03/19	60	2	Yr Eglwys
Trafodaeth Y Cynllun Pentref	3/4/19	17	1	Yr Eglwys
Ymgynghoriad Cynllun Pentref a'r Eglwys	11/5/19	25	7.5	Yr Eglwys
Ymgynghoriad Cynllun Pentref a'r Eglwys — Cymdeithas Brycheiniog a Ffrindiau'r Amgueddfa	18/5/19	20	1.5	Yr Eglwys
Ymgynghoriad Cynllun Pentref a'r Eglwys	11/5/19	25	7.5	Yr Eglwys
Ffair Haf a Diwrnod Mabolgampau	29/6/19	57	5	Y Cae
Ymgynghoriad yr Eglwys	20/11/2019	5	2	Yr Eglwys
Ymgynghoriad yr Eglwys	23/11/2019	9	6	Yr Eglwys
Dathliadau'r GoedenNadolig	30/11/2019	58	2	Yr Eglwys
Diweddariad a thrafodaeth yr Eglwys	15/02/20	22	1.5	Yr Eglwys



Friends of Llanyspyddid Feasibility Study



Friends of Llanyspyddid Feasibility Study

Y Weledigaeth

O ganlyniad i ymgynghoriad daeth yn amlwg bod y gymuned eisiau 3 pheth allweddol yn y pentref:

1. Gofod/adeilad cymunedol aml-ddefnydd.
2. Rhandiroedd
3. Llwybr troed/llwybr beicio i Aberhonddu.

Nododd yr ymgynghoriad fod y themâu allweddol hyn yn bwysig i iechyd a lles yn y dyfodol, ymdeimlad o gymuned ac ansawdd bywyd trigolion Llansbyddy.

Byddai man cymunedol yn fan cyfarfod i drigolion, a allai gael ei ddefnyddio at sawl pwrpas megis chwaraeon a hamdden, boreau coffi, partiön pen-blwydd a digwyddiadau pentref megis dathliadau'r Nadolig.

Byddai darparu rhandiroedd yn cyfrannu at gynaliadwyedd pentrefi trwy ffrwythau a llysiau a dyfir yn lleol, gan gyfrannu at iechyd, yr amgylchedd a lleihau ôl troed carbon y pentref.

Byddai llwybr troed/llwybr beicio aml-ddefnydd tarmac llawn i mewn i Aberhonddu yn lleihau'r defnydd o geir. Byddai'n gwneud y daith i Aberhonddu ar droed neu ar feic yn fwy diogel ac yn fwy cyfforddus. Byddai effaith y cyfleuster hwn yn lleihau'r defnydd o gerbydau gan drigolion, yn lleihau llygredd ac yn cynyddu iechyd y defnyddwyr.



Datblygiad yn y Dyfodol

Er nad yw trigolion ar y cyfan yn gwrthwynebu datblygiad yn Llansbyddyd a'r cyffiniau, maent yn disgwyl i ddatblygiad 1) gyfrannu'n gymesur at wella lles amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y pentref a 2) ei fod yn cael ei gwblhau i'r safon uchaf cynaliadwyedd tra'n mynd i'r afael â'r materion a amlinellir isod.

Cyffordd gyda'r A40

- Bydd effaith ar ddiogelwch y gyffordd gyda'r A40 gyda thraffig ychwanegol oherwydd dyma'r brif ffordd i mewn neu allan o Lansbyddyd. Yr unig ffordd arall o Lansbyddyd yw lôn gul sy'n ymuno â Ffordd Warren.
- Nid oes goleuadau ar gyffordd yr A40.
- Mae gyferbyn â'r safle bws lle mae'n rhaid i blant a thrigolion eraill groesi'r A40 i ddal y bws i Aberhonddu.
- Yn ystod yr ymgynghoriadau ar y Caniatâd Cynllunio Amlinellol, nododd Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru fod y gyffordd hon eisoes yn uwch na'r trothwy 500 AADT ar gyfer cyffordd o'r safon hon.

Hygyrchedd a Diogelwch Cerbydau'r Gwasanaethau Brys

- Dim ond un llwybr sydd i mewn ac allan o Heol Sant Cattwg. Mae angen lleiafswm o 3.7mo led y ffordd gerbydau ar gerbydau brys. ('Mynediad a Chyfleusterau ar gyfer y Gwasanaeth Tân'. Adran 17, 'Mynediad i Gerbydau'). Mae'r stryd bresennol yn llai na'r lled hwn.
- Traffig ychwanegol yn codi pryderon am blant yn chwarae a beicio yn y pentref.

Darpariaeth Parcio

- Cafodd Heol Sant Cattwg ei dylunio a'i hadeiladu yn y 1960au/70au felly nid oedd fawr ddim darpariaeth, os o gwbl, ar gyfer parcio ceir ar eiddo. O ganlyniad, mae ceir yn cael eu parcio ar y ffordd gerbydau gan leihau'r lled ac weithiau'n ei rwystro.
- Mae ardaloedd problemus ochr yn ochr â Chae'r Eglwys ac Eglwys Sant Cattwg (1-6 HSC) a rhwng 10-18 HSC. Hefyd, gellir cyfyngu ar y troi rhwng 18 HSC a 33HSC.
- Mae sgil-bryderon am barcio ychwanegol yn y pentref presennol o ddatblygiadau yn y dyfodol, gan achosi mwy o gyfyngiadau.
- Ar hyn o bryd mae 17HSC yn defnyddio sbardun Heol Sant Cattwg ar gyfer parcio gan gynnwys garej sy'n cael ei rhentu gan Gyngor Sir Powys. Mae gardd flaen 17 HSC yn rhy fach i barcio unrhyw gerbyd oherwydd y gwahaniaeth yn uchder y ddaear ar lefel y tŷ a lefel y sbardun.

Draeniad

- Mae gan Heol Sant Cattwg hanes o broblemau draenio. Er bod buddsoddiad wedi datrys materion 34 – 47, 1-6 Heol Sant Cattwg a Meadowside. Nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i ddarparu ar gyfer y rhan sy'n weddill o Heol Sant Cattwg, o Eglwys Sant Cattwg i fyny'r bryn i 25-27 Heol Sant Cattwg na'r tir datblygu arfaethedig.
- Mae dŵr yn casglu yn y ffosydd ar y tir datblygu arfaethedig ond ar hyn o bryd mae'n arllwys i'r lôn rhwng Eglwys Sant Catwg. Mae'r cwlfer wedi'i lethu ac mae dŵr yn tresmasu ar ffordd gerbydau'r A40. Mae hefyd wedi gorfodi gorchudd y twll archwilio i fyny yn yr Hen Reithordy ar ochr arall yr A40.
- Mae tystiolaeth hefyd bod carthion yn cael eu cymysgu â dŵr ffo fel y gwelwyd gan Simon Crowther, Cyngor Sir Powys 29 Chwefror 2016 yn ystod ymweliad safle. Roedd hyn hefyd wedi'i adrodd gan berchnogion yr Hen Reithordy.

Capasiti gwasanaethau

- Mae gwaith trin carthffosiaeth yn y pentref yn ddigonol ar gyfer y defnydd presennol dan amodau arferol. Fodd bynnag, mae'r draeniad tir yn gysylltiedig ag all-lif carthion (a fwriedir neu beidio) ac yn aml mae'n lethu'r gwaith trin carthffosiaeth. Mae tywydd anrhagweladwy a glawiad uchel yn debygol o gynyddu yn y dyfodol. Ar y cyd â chynnydd yn y defnydd a'r galw ychwanegol am dai gallai hyn osod y system bresennol y tu hwnt i gapasiti a llygru SoDdGA Afon Wysg.
- Efallai na fydd gwifrau trydan uwchben a thrawsnewidyddion yn addas i'r diben. Ffrwydrodd un newidydd yn y pentref yn 2019. A yw'r system bresennol yn gallu darparu capasiti ychwanegol? Sut bydd eiddo mewn unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol yn cael ei gyflenwi gan drydan?

Fframwaith Cyflawni

Y gymuned fyddai'n gyfrifol am gyflawni'r ddwy weledigaeth gyntaf. Mae'r grŵp cyfansoddiadol Cyfeillion Llansbyddy eisoes yn bodoli ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drefnu digwyddiadau yn y gymuned. Mae'r grŵp eisoes wedi cael llwyddiant wrth ddeisebu Llywodraeth Cymru i ostwng y cyfyngiad cyflymder yn y pentref a gwella'r arwyddion. Maen nhw wedi codi arian i wella a gosod offer chwarae ar faes chwarae'r pentref hefyd.

Er mwyn cael y weledigaeth o ofod cymunedol, mae'n rhaid nodi opsiynau i gyflawni hyn. Fel pentref rydym wedi bod yn ffodus yn y gorffennol i gael defnydd o eglwys Sant Catwg a chae'r eglwys sydd yng nghanol y pentref. Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi cau'r eglwys ar gyfer addoli. Mae'r adeilad hwn a chae'r eglwys gyfagos yn fannau cychwyn amlwg ar gyfer creu gofod pentref. Mae'n dal i gael ei ddefnyddio gan y gymuned ar hyn o bryd ond ni wyddys am faint yn hwy y bydd yr eglwys yn caniatáu hyn. Y peryg yw bod yr Eglwys yng Nghymru yn penderfynu gwerthu'r eglwys a'r cae ar gyfer datblygiad preifat. Mae'r Eglwys yng Nghymru ar hyn o bryd yn fodlon gweithio gyda thrigolion y pentref i greu gofod pentref. Mae Cyfeillion

Llansbyddyd ar hyn o bryd wedi ariannu astudiaeth ymarferol i'r opsiynau a fyddai'n cael eu darparu gan y cyfleusterau presennol hyn, ac mae opsiynau'n bodoli o ran sut y gellir cyflawni hyn.

Mae darparu rhandiroedd i'r pentref yn dasg anoddach i'r gymuned gan fod gan y pentref adnoddau cyfyngedig i brynu tir i ddarparu'r cyfleuster hwn. Mae rhandiroedd ar gyfartaledd yn 250m². Mater arall yw nodi tir addas a ddylai fod o fewn pellter cerdded i'r pentref y gellid ei ddefnyddio fel rhandir. Opsiwn arall i weithredu'r weledigaeth hon yw cynnwys y cynllun hwn mewn unrhyw ddatblygiad o'r pentref yn y dyfodol i ymgorffori rhandiroedd lle mae tir wedi'i nodi fel rhan o'r datblygiad.

Mae'r angen am lwybr/llwybr beicio i Aberhonddu yn opsiwn mwy cyraeddadwy. Mae llwybr presennol i mewn i Aberhonddu er nad yw'n llwybr troed swyddogol nac yn hawl tramwy. Nid yw'n addas at y diben ar hyn o bryd. Mae'n gul, yn beryglus mewn manau ac yn anghyfforddus i reidio/cerdded arno dan draed oherwydd ei adeiladwaith. Ar hyn o bryd mae wedi'i wneud o ddefnyddio sgalpio ffordd. Awdurdodau lleol/Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am hyn, er y gall trigolion ddylanwadu ar yr opsiwn hwn fel rhan o fentrau hinsawdd presennol. Dylid ystyried hyn mewn unrhyw gynllunio a pholisïau yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â lleihau llygredd, a mathau eraill o warchodaeth amgylcheddol. Byddai hyn yn golygu bod y pentref yn lobïo'r llywodraeth ac yn gofyn i ddatblygwyr gymryd yr angen hwn i ystyriaeth.



Sicrhau Llwyddiant

Mae peryglon i gynllun y pentref a gallai'r rhain olygu bod yr eglwys a chae'r eglwys yn cael eu gwerthu i ddatblygwr preifat a'r eglwys yn cael ei throsi i dŷ preifat a'r cae yn cael ei ymgorffori fel rhan o hyn neu ei werthu ar gyfer datblygiad tai. Byddai hyn ar draul y gymuned gan y byddai'n annhebygol y gallai digwyddiadau yn y pentref barhau.

Rhandiroedd yw'r her anoddaf yn y cynllun hwn. Mae gan y pentref adnoddau ariannol cyfyngedig i brynu tir ac mae dod o hyd i dir addas sy'n ddigon agos i'r pentref yn broblem. Dylai unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol gymryd y cynllun hwn i ystyriaeth mewn unrhyw dir sydd wedi'i glustnodi ar gyfer tai.

Y llwybr troed yw'r hawsaf o'r tri i'w weithredu ond nid yw heb ei broblemau. Fe allai'r awdurdodau wrthod y cais, mae diffyg arian neu awydd gan yr awdurdodau i weithredu hyn fel rhan o'r cynllun. Gallent hefyd drosglwyddo'r arian i ddatblygwr yn y dyfodol i ariannu'r llwybr fel rhan o unrhyw ganiatâd. Efallai hefyd nad yw adeiladu'r llwybr yn ffisegol bosibl oherwydd anawsterau peirianyddol amrywiol.

Mae llwyddiant y cynllun hwn yn hawddei fesur wrth adeiladu gofod cymunedol llwyddiannus sy'n dod yn hunan-gyllidol ac a ddefnyddir yn rheolaidd o fewn y gymuned ar gyfer amrywiaeth o ddigwyddiadau. Byddai'n gwneud y gymuned yn fwy cynaliadwy a ffyniannus. Byddai hyn yn denu pobl i aros yn y pentref ac yn denu trigolion newydd i fod eisiau byw yn y gymuned gan feithrin ymdeimlad o gymuned.

Byddai cael rhandiroedd o fewn y gymuned yn rhoi ymdeimlad o les yn enwedig gyda'r trigolion oedrannus sydd yn draddodiadol wedi bod yn hoelion wyth garddio a thyfu bwyd i'w fwyta. Byddai gan y pentref gymdeithas rhandiroedd weithredol. Byddai'n golygu bod pobl leol yn tyfu bwyd lleol i'w fwyta'n lleol. Byddai'r effaith ar ôl troed carbon a milltiroedd bwyd y pentref yn cael ei leihau.

Byddai llwybr troed arwyneb tarmac llyfn diogel i mewn i Aberhonddu yn cael ei adeiladu ac yn cael ei ddefnyddio'n gyson gan gerddwyr a beicwyr bob dydd. Mae'r effeithiau o gael y cyfleuster hwn yn amlwg. Byddai'n lleihau'r defnydd o gerbydau, llygredd, byddai o fantais iechyd drwy ymarfer corff ac arbed costau i drigolion drwy gerdded a beicio i'r dref.

Byddai cymryd i ystyriaeth y cynllun hwn yn sicrhau dyfodol Llansbyddydd am genedlaethau i ddod. Byddai'n lleihau ôl troed carbon y pentref, yn ei wneud yn fwy cynaliadwy, ac yn rhoi ymdeimlad o iechyd a lles i drigolion. Byddai'n cadw calon hanesyddol y gymuned ac yn gwneud y pentref yn lle gweddus i fyw, gan ei wneud yn fyw ac yn fywiog.



